



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Capel Garmon
Capel Garmon
Llanrwst
Conwy
LL26 0RL**

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2014

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

© **Hawlfraint y Goron 2014: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Dyddiad cyhoeddi: 23/05/2014

Cyd-destun

Mae'r ysgol ym mhentref Capel Garmon rhyw bum milltir o Lanrwst yng Nghonwy ac yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion ar ddechrau mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Ar hyn o bryd, mae 16 o ddisgyblion o oedran statudol yn mynychu'r ysgol. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol ar yr 26 o ddisgyblion oedd yn yr ysgol yn ystod yr arolygiad blaenorol. Addysgir y disgyblion gan un athrawes amser llawn a dwy ran-amser.

Cymraeg yw prif gyfrwng iaith yr ysgol ac anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd. Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Uwchradd Dyffryn Conwy yn Llanrwst ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Daw 76% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Nid oes yr un disgybl o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae o gwmpas 12.5% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae hyn yn is na'r canran sirol a chenedlaethol. Mae tua 38% o'r disgyblion yn derbyn cymorth anghenion addysg ychwanegol ac mae hyn yn sylweddol uwch na'r ffigwr cenedlaethol (21.2%). Nid oes yr un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Ni chofnodwyd unrhyw waharddiadau parhaol na thros dro yn y flwyddyn cyn yr arolygiad.

Bu cryn newid yn arweinyddiaeth a staff addysgu'r ysgol ers yr arolygiad diwethaf ac, ers Medi 2012, mae llywodraethwyr Capel Garmon a Betws y Coed yn treialu ffederaleiddio.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Capel Garmon yn 2013-2014 yn £8,880 y disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Conwy yw £14,575 a'r lleiafswm yw £3,230. Mae Ysgol Gynradd Capel Garmon yn y trydydd safle o'r 58 ysgol gynradd yng Nghonwy o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu hamser yn yr ysgol;
- disgyblion yn deall beth sydd angen ei wneud i wella eu gwaith;
- ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach yn dda iawn;
- yr addysgu'n gyson effeithiol;
- disgyblion yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda; a bod
- bron pob disgybl yn mwynhau yn yr ysgol ac yn cyfrannu'n dda mewn gwersi.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gweledigaeth glir iawn gan y pennaeth ar sut i ddatblygu'r ysgol, gyda hyn wedi ei seilio ar godi safonau;
- y staff a'r llywodraethwyr yn rhannu'r un weledigaeth;
- y broses hunanarfarnu yn gadarn ac yn dangos adnabyddiaeth dda o'r cryfderau a'r meysydd sydd angen eu datblygu;
- yr arweinyddiaeth yn cynllunio ar gyfer gwella'n effeithiol; a bod
- partneriaethau'r ysgol yn effeithiol iawn ac yn gwneud cyfraniad pwysig at godi safonau, cyfoethogi'r ddarpariaeth a chefnogi lles y disgyblion.

Argymhellion

- A1 Codi safonau ysgrifennu estynedig disgyblion mewn pynciau ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg
- A2 Sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth ysgrifenedig er mwyn gwella eu gwaith
- A3 Sicrhau bod y profiadau dysgu ar draws y pynciau yn adlewyrchu'r cynlluniau gwaith yn llawn
- A4 Datblygu rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig yn disgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu hamser yn ysgol Capel Garmon. Datblygant eu medrau llafar, darllen, ysgrifennu, a chymhwyso rhif ar draws y cwricwlwm yn effeithiol ac maent yn gallu dwyn i gof ddysgu blaenorol yn effeithiol. Mae bron pob disgybl yn canolbwyntio'n bwrpasol.

Ar draws yr ysgol, mae safonau llafar y disgyblion yn y Gymraeg yn dda gyda bron pob disgybl yn siarad yn hyderus ac yn rhugl mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd. Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Mae bron pob disgybl yn gwrando'n dda ac yn parchu cyfraniadau llafar disgyblion eraill. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod yn rhugl gan fynegi eu syniadau yn glir yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae medrau darllen y disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn darllen yn unol â'u hoedran a'u gallu. Maent yn defnyddio ystod dda o strategaethau i ddarllen a deall testunau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn uchel yn hyderus a chyda mynegiant ystyrion yn y ddwy iaith. Gallant drafod eu llyfrau darllen yn llwyddiannus gan fynegi barn am eu hoff awduron yn hyderus. Gwna llawer ddefnydd arbennig o dda o'u medrau darllen i ymchwilio i bynciau yn ymwneud â'r thema.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ysgrifennu'n ddealladwy yn y Cyfnod Sylfaen ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu ysgrifennu darnau annibynnol mewn amrywiaeth o destunau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n hyderus ar draws ystod eang o destunau yn y ddwy iaith ac mae eu hysgrifennu ffeithiol yn gryfder. Fodd bynnag, nid ydynt yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws y pynciau yn ddigon aml. O ganlyniad, mae rhy ychydig o ddisgyblion yn cyflawni safonau uwch na'r disgwyl mewn ysgrifennu ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda yn y gwersi ac maent yn hyderus wrth gymhwyso rhif mewn sefyllfaoedd ymarferol i ddatrys problemau. Mae safonau rhif y mwyafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 mewn gwersi a llyfrau mathemateg yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio medrau rhif a ddysgwyd mewn mathemateg yn effeithiol yn eu gwaith thema yn arbennig wrth drin data mewn ymchwiliadau gwyddonol.

Mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl a'u medrau ymchwilio yn bwrpasol yn eu gwaith thema.

Mae pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda yn erbyn eu targedau.

Mae niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn a gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 o'i gymharu â meincnodau cenedlaethol o un flwyddyn i'r nesaf. Oherwydd y niferoedd bychain, ni wneir sylw ar ddata un flwyddyn.

Mae perfformiad y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn gyson dda. Mae 100% o'r disgyblion wedi cyrraedd y deilliant 5 disgwyliedig am y ddwy flynedd ddiwethaf ym mhob maes dysgu. Mae'r perfformiad hwn yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Dangosodd perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 welliant mawr yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mewn iaith. Yn y ddwy flynedd flaenorol, roedd perfformiad mewn Saesneg a Chymraeg wedi bod yn gyffredinol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn gyson yn y 25% uchaf. Bellach, mae perfformiad yn y 25% uchaf ym mhob pwnc.

Mae cryn amrywiaeth yn y canlyniadau o ran perfformiad ar y deilliant uwch yn y Cyfnod Sylfaen. Er bod cynnydd yn y canlyniadau o ran cyrraedd y lefel uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae'r perfformiad yn gyffredinol naill ai yn yr hanner is neu'r 25% isaf.

Lles: Da

Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ar draws yr ysgol. Dangosant barch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn meddu ar agweddau aeddfed at eu gwaith ac yn dangos parch a gofal am eraill.

Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Mae'r modd y maent yn dysgu medrau coginio bwyd iach yn fisol yng nghegin yr ysgol yn gryfder. Mae pob disgybl yn mwynhau ymgymryd ag ymarfer corff ac yn deall sut mae hyn yn eu helpu i fod yn iach. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor neu i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn ysgwyddo'u cyfrifoldebau yn briodol. Mae ganddynt ddulliau addas ar gyfer ymgynghori â gweddill y disgyblion ac maent yn eu cynrychioli'n effeithiol. Mae pob disgybl yn cyfrannu'n dda at achlysuron cymunedol megis boreau coffi elusennol.

Mae prydlondeb y disgyblion yn dda ac mae presenoldeb yr ysgol tan eleni wedi bod yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu cyffrous sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Mae'r cydgynllunio fel tair ysgol fechan yn effeithiol iawn ac yn sicrhau cynlluniau tymor hir a chanolig manwl. Mae'r cynllunio yn ymateb i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn briodol. Serch hynny,

mewn lleiafrif o bynciau, nid yw'r profiadau dysgu yn y dosbarthiadau yn adlewyrchu'r cynlluniau gwaith yn llawn.

Mae cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, ar y cyfan, yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm yn y ddwy iaith yn anghyson. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd ymarferol i ddatblygu medrau rhif a meddwl ar draws y cwricwlwm, yn arbennig mewn gwyddoniaeth.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd amrywiol i sicrhau bod disgyblion yn datblygu agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg. Darperir ystod o brofiadau priodol sy'n hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig trwy ymweliadau, astudiaethau o'r ardal leol, a gwaith gydag awduron ac artistiaid lleol megis Angharad Tomos ac Andy Birch.

Mae'r ysgol yn darparu ystod werthfawr o brofiadau i ddisgyblion i ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae disgyblion yn elwa'n benodol o brosiect sy'n hybu cydweithio ag ysgol gyfagos ac ysgolion eraill yn Ewrop.

Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn dda ar draws yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau. Trwy wneud defnydd da o offer ac adnoddau dysgu, ac arddangos ystod o ddulliau addysgu, mae athrawon yn ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae strategaethau asesu yn effeithiol ar draws yr ysgol. Mae sylwadau adborth staff yn gynhaliol ar lafar ac yn amlwg yn llyfrau'r disgyblion. Yn yr arfer orau, mae sylwadau pwrpasol ar sut i wella'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r meini prawf llwyddiant a osodwyd. Serch hynny, nid oes cyfleoedd penodol i'r disgyblion ymateb i'r sylwadau hyn.

Mae gan bob disgybl dargedau gwella ac mae'r staff yn monitro'r rhain yn gyson. Mae athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion yn drylwyr iawn. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i lywio'u gwaith cynllunio ac i dargedu disgyblion ar gyfer rhaglenni ymyrraeth priodol. Mae systemau safoni a chymedroli asesiadau yn gadarn, gan sicrhau bod yr asesiadau'n gywir.

Mae adroddiadau'r ysgol i rieni yn glir ac yn cynnwys gwybodaeth am gynnydd disgyblion ynghyd â'r camau nesaf er mwyn gwella.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n meithrin dysgu da.

Mae gan yr ysgol drefniadau blaengar ar gyfer annog disgyblion i fod yn iach, gan gynnwys y trefniadau hynod effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae polisiâu a gweithdrefnau addas ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles disgyblion sydd yn cwmpasu agweddau fel gwahaniaethu a bwlio yn effeithiol. Mae profiadau dysgu, yn ogystal â gweithgareddau addoli ar y cyd, yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn dda gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o gymorth allanol er mwyn sicrhau iechyd a lles y disgyblion, er enghraifft yr heddlu ac arbenigedd yr awdurdod lleol.

Mae gan yr ysgol system drwyadl ar gyfer targedu disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn sicrhau lefel uchel o gynhaliadaeth ar gyfer y disgyblion hyn. Mae'r rhaglen ymyrraeth wedi ei datblygu'n dda iawn ac mae'r system dracio a monitro yn sicrhau bod y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau. Mae rhieni yn ymwybodol o gynnwys cynlluniau addysg unigol ac mae'r cydweithio effeithiol rhwng holl aelodau'r staff a'r rheini yn sicrhau'r gorau posibl i'r disgyblion. Gwna'r ysgol ddefnydd da o gyngor arbenigol.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae ethos teuluol a hapus yr ysgol yn gynhwysol ac yn sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod a pharchu amrywiaeth unigolion. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol a gwasanaethau boreol yn hyrwyddo agweddau ar degwch ac amrywiaeth yn dda. Mae polisiau priodol sy'n annog unigolion i feithrin agweddau goddefgar er mwyn sicrhau bod disgyblion yn rhydd oddi wrth aflonyddwch.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r adeilad a'r adnoddau. Mae'n darparu amgylchedd dysgu lliwgar ac ysgogol y tu mewn a thu allan sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion ac yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r adeilad a'r safle yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion a'r gweithgareddau mae'r ysgol yn eu darparu. Maent yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol.

Mae gan yr ysgol ystod addas o adnoddau o ansawdd da sydd yn cyfarfod yn effeithiol ag anghenion dysgu'r disgyblion.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn effeithiol ac mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer codi safonau. O ganlyniad, mae'n llwyddo i ddarparu cyfeiriad strategol cadarn i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae hi wedi llwyddo i rannu'r weledigaeth yn dda gyda'r staff, llywodraethwyr a rhieni.

Mewn amser eithaf byr, mae'r pennaeth wedi llwyddo i greu ethos cryf o waith tîm yn yr ysgol sy'n manteisio ar gydweithio rhwng y tair ysgol y mae ganddi ofal trostynt. Mae hyn yn cynnwys rhannu profiad ac arbenigedd, ynghyd â chydgyllunio er mwyn codi safonau.

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael yn briodol â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'n canolbwyntio'n briodol ar agweddau allweddol, megis ar weithredu gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a hyrwyddo ffordd o fyw iach.

Mae'r corff llywodraethol ynghyd â'r cadeirydd a'r cleric yn gymharol newydd i'w dyletswyddau ac mae eu dealltwriaeth o'u rôl yn dechrau datblygu. Maent yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn derbyn adroddiadau yn rheolaidd ar weithredu'r cynllun gwella ysgol. Mae dealltwriaeth rhai o'r aelodau o safonau ar lawr y dosbarth yn cryfhau trwy ymweliadau monitro sydd newydd gychwyn. Serch hynny, maent yn orddibynnol ar wybodaeth gan y pennaeth ac nid yw eu rôl fel cyfeillion beirniadol wedi gwreiddio.

Gwella ansawdd: Da

Mae prosesau hunanarfarnu yn gadarn ac yn cynnwys yr holl staff yn llwyddiannus. Mae'r dadansoddiad o ddata yn rhan annatod o'r broses ac yn drwyadl. Cesglir tystiolaeth yn effeithiol trwy arsylwadau dosbarth, craffu ar waith disgyblion, a gwrando ar safbwyntiau disgyblion a rhieni. Mae'r adroddiad hunanarfarnu sy'n deillio o'r broses yn gytbwys ac yn dangos bod gan yr arweinwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen eu cryfhau.

Defnyddir y wybodaeth o'r broses hunanarfarnu yn effeithiol i osod blaenoriaethau a thargedau priodol ar gyfer gwella. Mae'r cynllun datblygu yn nodi'n glir y penawdau angenrheidiol, yn canolbwyntio ar godi safonau ac yn rhoi cyfeiriad pendant i'r ysgol. Mae cynllun gwella'r ysgol yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar godi a chynnal safonau a gwella'r ddarpariaeth.

Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol

Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau llwyddiannus sydd yn gwneud cyfraniad pwysig at godi safonau, cyfoethogi'r ddarpariaeth a chefnogi lles pob disgybl.

Mae'r bartneriaeth gyda'r rhieni yn gryfder. Mae'r ysgol yn gweithio'n gyson i'w cynnwys yn addysg eu plant. Mae'r ysgol yn cynnig gweithdai llythrennedd i rieni gyda ffocws clir ar sut i gefnogi darllen yn y cartref. Trwy hyn, mae gan rieni ddealltwriaeth dda iawn o sut i gefnogi addysg eu plant ac, o ganlyniad, mae hyn yn cael effaith ar godi safonau darllen.

Mae partneriaeth rhwng yr ysgol a'r gymuned leol hefyd yn un o gryfderau'r ysgol. Cefnoga'r ardal holl weithgareddau'r ysgol gan eu troi yn ddigwyddiadau cymunedol. O ganlyniad, mae'r arian sy'n cael ei godi yn galluogi'r ysgol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion. Sefydlwyd partneriaeth fuddiol gyda phwyllgor y neuadd leol sy'n galluogi'r ysgol i wneud defnydd wythnosol o'r neuadd i gynnal gwersi ymarfer corff yn rheolaidd a datblygu medrau gymnasteg.

Partneriaeth hynod effeithiol yw'r un rhwng yr ysgol â gwasanaeth arlwyo'r awdurdod. Mae cyfraniad cogyddes yr ysgol at gyfoethogi'r ddarpariaeth a chefnogi lles y disgyblion yn sylweddol trwy roi gwersi yn fisol ar sut i baratoi bwyd iach. Mae'r cydweithio hwn hefyd yn cynnwys trefnu a gweini cinio misol ar gyfer yr henoed. Trwy'r cyfleoedd hyn, mae disgyblion yn elwa'n fawr o'r cyfleoedd i ddatblygu eu medrau llafar yn y ddwy iaith trwy wneud cyflwyniadau yn seiliedig ar eu gwaith ysgol, diddordebau neu wyliau.

Mae'r bartneriaeth â'r ddwy ysgol arall sydd o dan arweinyddiaeth y pennaeth yn effeithiol iawn. Nodwedd arbennig o'r cydweithio hwn yw'r defnydd o rannu data, gwybodaeth ac arfer dda gan ddefnyddio storfa e-flwch ar y we.

Mae cydweithio effeithiol hefyd gydag ysgolion cynradd ac uwchradd y dalgylch i gyd safoni a chymedroli asesiadau athrawon.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli adnoddau a staff yn effeithiol. Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i ymateb i ofynion nifer y disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio staff cynorthwyol yn llwyddiannus i roi cefnogaeth werthfawr i unigolion a grwpiau o ddisgyblion ac i ofalu amdanynt yn ystod y dydd.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol baich gwaith athrawon. Defnyddia'r athrawon eu hamser digyswllt yn effeithiol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Mae athrawon yn cael eu datblygu'n broffesiynol drwy'r broses rheoli perfformiad bwrpasol. Mae'r staff sy'n mynychu hyfforddiant yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol gyda gweddill y staff.

Mae cymuned ddysgu broffesiynol ddefnyddiol wedi ei sefydlu gyda'r ysgol uwchradd i ddatblygu agwedd benodol ar fathemateg. Nid yw hyn eto wedi cael amser i ddatblygu'n llawn a chael effaith ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol a'r is-bwyllgor cyllid, gyda chefnogaeth swyddog cyllid yr awdurdod, yn monitro'r gyllideb yn briodol. Mae cyswllt amlwg rhwng y gwariant a'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun datblygu.

O ystyried y safonau a'r ddarpariaeth, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn a gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol o'i gymharu â meincnodau cenedlaethol o un flwyddyn i'r nesaf. Oherwydd y niferoedd bychain, ni wneir sylw ar ddata un flwyddyn.

Mae perfformiad y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn gyson dda. Mae 100% o'r disgyblion wedi cyrraedd y deilliant 5 disgwylidig am y ddwy flynedd ddiwethaf ym mhob maes dysgu. Mae perfformiad hyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu a Chymru ac yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Nid yw'r perfformiad o ran cyrraedd y deilliant 6 uwch gystal gan fod cryn amrywiaeth yn y canlyniadau o ran y meincnodi yn erbyn ysgolion tebyg.

Dangosodd perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 welliant mawr yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf o ran iaith. Yn y ddwy flynedd flaenorol mae perfformiad mewn Saesneg a Chymraeg wedi bod islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu ac yn gyffredinol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad o ran mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn gyffredinol gyson yn y 25% uchaf. Bellach maent yn y 25% uchaf ym mhob pwnc.

Yn gyffredinol, dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefel 5 uwch wedi bod yn is na'r teulu a Chymru. Er bod y perfformiad wedi gwella ymhob pwnc ond Saesneg, mae'n parhau yn is na'r teulu a Chymru ym mhob pwnc. Ar wahân i rai eithriadau, nid yw'r ysgol yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg ac yn gyffredinol mae perfformiad yn y 25% neu 50% isaf.

Oherwydd y nifer bychan o ddisgyblion sydd yn yr ysgol, nid yw'n bosibl cymharu cyflawniadau grwpiau o ddisgyblion.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	10	10 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	10	10 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	10	10 100%	0 0%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	10	10 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		98%	2%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	10	10 100%	0 0%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	10	10 100%	0 0%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	10	10 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	10	10 100%	0 0%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	10	10 100%	0 0%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	10	10 100%	0 0%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	10	10 100%	0 0%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	10	10 100%	0 0%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Maldwyn Pryse	Arolygydd Cofnodol
Iwan Roberts	Arolygydd Lleyg
Annwen Watkins	Arolygydd Cymheiriaid
Iona Hughes	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.